
# Cynllun Gweithredu Amgylcheddol



theatr na nÓg

Diweddarwyd Rhagfyr 2022

## Rhagymadrodd

Mae Theatr na nÓg yn cydnabod ein bod mewn argyfwng hinsawdd a bod ganddi gyfrifoldeb i'r amgylchedd y tu hwnt i ofynion cyfreithiol a rheoleiddiol.

Rydyn ni wedi ymrwymo i leihau ein heffaith amgylcheddol a gwella ein perfformiad amgylcheddol yn barhaus fel rhan annatod o'n strategaeth fusnes a'n dulliau gweithredu, gan osod pwyntiau i'w hadolygu bob deufis.

Byddwn yn annog ein staff, ein gwirfoddolwyr, y timau creadigol yr ydym yn gweithio gyda nhw, aelodau'r gynulleidfa a'n rhanddeiliaid i wneud yr un peth.

Mae gan bob gweithiwr gyfrifoldeb i sicrhau bod nodau ac amcanion y cynllun yn cael eu cyflawni.

# Nodau

Rydyn ni'n ymdrechu i:
- gydymffurfio â'r holl ofynion rheoliadol perthnasol a rhagori arnynt;
- gwella a monitro perfformiad amgylcheddol yn barhaus;
- gwella a lleihau effeithiau amgylcheddol yn barhaus;
- ymgorffori ffactorau amgylcheddol ymhob penderfyniad busnes;
- cynyddu ymwybyddiaeth a hyfforddiant y gweithwyr.

Dull Gweithredu
Rydyn ni wedi cynnal archwiliad o bob agwedd ar y busnes, wedi archwilio ein sefyllfa bresennol ac wedi edrych ar ffyrdd y gallwn leihau ein heffaith ar yr amgylchedd.

Byddwn yn parhau i ganfod ffyrdd y gallwn symud tuag atynt i ddod yn gwmni carbon niwtral. Byddwn yn cyfrifo llinell sylfaen ar gyfer ein hallyriadau ynni, trafnidiaeth a gwastraff er mwyn tracio ein cynnydd. Byddwn yn defnyddio llinell sylfaen a nodir yn Llyfr Gwyrdd y Theatr (y Llyfr Gwyrdd), wrth osod safonau ar gyfer ein cynyrchiadau yn y dyfodol gan symud ymlaen o'r pwynt hwnnw.

# Cwmpas 1 Allyriadau Uniongyrchol:

## Maes effaith: Trafnidiaeth

**Nod:** Lleihau ein hôl troed carbon a'n defnydd o danwyddau ffosil.

**Cynnydd:** Rydyn ni'n blaenoriaethu'r gwaith a wnawn yn lleol er mwyn lleihau teithiau a chynyddu buddsoddiadau yn y maes hwnnw. Defnyddir trafnidiaeth gyhoeddus a rhennir ceir lle bynnag y bo modd.

**Camau gweithredu:**

- Byddwn yn dilyn holl argymhellion y Llyfr Gwyrdd ar deithiau.
- Wrth archebu teithiau, byddwn yn edrych ar y llwybr mwyaf uniongyrchol, gan leihau'r angen am dripiau lluosog.

## Maes effaith: Nwy

**Nod:** Defnyddio cwmnïau sy'n cyflenwi ynni a adnewyddir 100%. Gostwng y defnydd presennol.

**Cynnydd:** Newidiwyd y cyflenwr nwy i Engie - cwmni o Ffrainc sy'n gweithio tuag at ynni adnewyddadwy mwy cynaliadwy. Rydyn ni wedi buddsoddi yn ein seilwaith TG i alluogi gweithio symudol. Drwy hynny, gallwn weithio'n hyblyg, gan leihau ein hamser yn yr adeilad.

**Camau gweithredu:** Monitro defnydd yn fisol ac yn flynyddol. Gosod targed i leihau ein defnydd o ynni 10% yn y flwyddyn gyntaf (23/24)

## Maes effaith: Mannau allanol

**Nod:** Creu man gwyrdd a fydd yn llesol i'r amgylchedd cyfagos, gan annog natur i ffynnu.

**Cynnydd:** Ariannodd Cronfa Ieuenctid CNPT grŵp o bobl ifanc yn Ysgol Cefn Saeson i gynnal prosiect a oedd yn cynnwys gwirfoddoli yn y gymuned. Enw'r prosiect oedd Cynnydd ond nid yw wedi ailgychwyn.



**Camau gweithredu:** Archwilio opsiynau i ddechrau prosiect newydd sy'n cynnwys pobl ifanc yn y gwaith o gynnal a chadw'r gofod, gan edrych ar y potensial i dyfu llysiau, a chompostio.

# Cwmpas 2 Allyriadau Anuniongyrchol:

## Maes effaith: Ynni

**Nod:** Defnyddio cwmnïau sy'n cyflenwi ynni a adnewyddir 100% a gostwng y defnydd presennol.

**Cynnydd:** Rydyn ni wedi gosod mesurydd trydan deallus i ddarparu adroddiadau cywirach o'n defnydd. Rydyn ni'n monitro ein defnydd o drydan yn agosach.

**Camau gweithredu:**

- Ystyried adnewyddu contractau'r cyflenwyr trydan a nwy i'r rhai mwyaf cynaliadwy.
- Monitro defnydd yn fisol ac yn flynyddol.
- Lleihau ein defnydd o ynni 10% yn y flwyddyn gyntaf (23/24)



## Maes effaith: Adeilad

**Nod:** Sicrhau bod unrhyw offer trydanol newydd a brynir yn meddu ar sgôr effeithlonrwydd ynni A o leiaf. Buddsoddi yn yr adeilad er mwyn gwneud gwelliannau o ran effeithlonrwydd ynni.

**Cynnydd:** Rydyn ni wedi newid y goleuadau i rai LED ac wedi newid y switshis fel eu bod mewn un banc canolog y gellir eu canfod yn hawdd ac nid eu gadael ymlaen. Mae'r ffenestri yn cynnwys gwydr dwbl. Byddwn yn archwilio opsiynau ar gyfer paneli solar pan fydd yr adeilad wedi'i inswleiddio'n llawn.

**Camau gweithredu:**
Parhau i weithredu'r mesurau sy'n costio ychydig neu ddim ac a nodwyd yn yr Adroddiad Effeithlonrwydd Adnoddau a luniwyd gan Gynllun y Cymunedau Cynaliadwy sef:

- newid yr holl oleuadau yn y swyddfa a'r gegin ar y llawr gwaelod i rai LED;
- ychwanegu inswleiddiad yng ngwagle'r nenfwd.

# Cwmpas 3 Allyriadau Anuniongyrchol o Weithgareddau'r Sefydliad:

## Maes effaith: Trafnidiaeth

**Nod:** Lleihau ein hôl troed carbon. Optimeiddio amserau ymarfer a chynnal sioeau er mwyn lleihau'r defnydd o gerbydau preifat.

**Cynnydd:** Rydyn ni'n annog pawb i ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus ac yn hyrwyddo a chefnogi trefniadau i rannu ceir. Rydyn ni wedi codi materion yn ymwneud â theithiau'r cynulleidfaoedd wrth drafod y sioeau ar gyfer 23/24.

**Camau gweithredu:** Gosod pwyntiau i wefru ceir trydan cyn gynted ag y bydd galw amdanynt. Dilyn argymhellion y Llyfr Gwyrdd.

## Maes effaith: Nwyddau traul

**Nod:** Mae'r holl nwyddau glanhau ac ymolchi yn ecogyfeillgar, yn ddigreulon ac yn figan. Mae'r te, y coffi, a'r nwyddau traul eraill yn dod o ffynonellau cynaliadwy.

**Cynnydd:** Rydyn ni wedi newid i gynhyrchion cegin ac ystafell ymolchi sy'n ecogyfeillgar, yn ddigreulon ac yn figan. Wrth ddewis eitemau tafladwy ar gyfer digwyddiadau, fel cwpanau papur a blychau bwyd, rydyn ni'n gweithredu ein meini prawf sylfaenol sef bod modd eu hailgylchu ac yn ddelfrydol, eu compostio.

**Camau gweithredu:** Creu Polisi Caffael ar gyfer y cwmni a sicrhau bod yr holl staff a'r gweithwyr llawrydd yn ei ddilyn.

## Maes effaith: Papur

**Nod:** Defnyddio papur cyn lleied â phosibl.

**Cynnydd:** Rydyn ni'n prynu papur sydd wedi'i ailgylchu ac yn ei argraffu ar ddwy ochr. Gwneir cymaint â phosibl yn electronig i leihau gwastraff papur. Mae hyn yn cynnwys anfonebau, contractau, a ffurflenni archebu a chofrestru. Anogir cyfarfodydd ac ymarferion di-bapur. Cymerir nodiadau ar ddyfeisiadau electronig yn lle llyfrau nodiadau neu fe'u cymerir ar bapur sgrap.

**Camau gweithredu:**
- Monitro ein hargraffu a'n llun-gopïo i wneud yn siŵr nad ydyn ni'n llithro yn ôl i brintio pethau yn ddiangen.
- Parhau i hyrwyddo sgriptiau di-bapur a cherddoriaeth ddalen trwy sicrhau eu bod yn cael eu cynhyrchu mewn fformatau cydnaws.

## Maes effaith: Staff

**Nod:** Ysbrydoli'r aelodau staff i leihau eu hôl troed carbon personol. Meithrin diwylliant cynaliadwy ar draws y cwmni.

**Cynnydd:** Rydyn ni wedi ychwanegu ein Polisïau Amgylcheddol at ein Pecynnau Croeso. Anogir y staff i ddefnyddio'r chwilotwr Ecosia. Mae'r Rheolwr Cyffredinol wedi cwblhau hyfforddiant ar Lythrennedd Carbon ac mae bellach wedi'i achredu. Erbyn hyn, mae'r Rheolwr Cyffredinol yn gyfrifol am Gynaliadwyedd Amgylcheddol fel rhan o'i gylch gwaith swyddogol.

Mae'r ymrwymiad i arferion cynhyrchu cynaliadwy wedi'i gynnwys yn swydd-ddisgrifiad yr hysbyseb ar gyfer y Rheolwr Cynhyrchu newydd.

**Camau gweithredu:**
- Cynnwys staff ym mhob rhan o'r Strategaeth Cynaliadwyedd.
- Enwebu noddwr cynaliadwyedd ar gyfer y bwrdd.

## Maes effaith: Gwastraff

**Nod:** Defnyddio cyn lleied â phosibl o blastig untro. Ailgylchu popeth lle bo modd. Ailgylchu a gwastraffu llai o ddeunyddiau.

**Cynnydd:** Mae staff ac ymwelwyr yn cael eu haddysgu ynghylch pa eitemau y gellir eu hailgylchu. Mae pawb yn cymryd cyfrifoldeb i leihau eu gwastraff ac i ailgylchu pob dim y gellir.

**Camau gweithredu:** Gwella'r arwyddion ac uwchraddio'r mannau casglu ar gyfer ailgylchu. Ailganolbwyntio ymdrechion ar leihau gwastraff drwy ystyried yr hierarchaeth wastraff ym mhopeth a brynwn. Dilyn y 5 Egwyddor o'r mwyaf i'r lleiaf dymunol sef gwrthod, lleihau, ailddefnyddio, ailwampio, ailgylchu.

## Maes effaith: Offer Technegol

**Nod:** Dim ond defnyddio offer technegol sydd angen ychydig o ynni.

**Cynnydd:** Rydyn ni wedi gweithio i leihau ein defnydd o oleuadau twngsten a'u newid i LED yn fewnol.



**Camau gweithredu:**

- Disodli offer anarferedig ag opsiynau ynni-isel
- Lle bo modd, llogi offer ynni-isel yn unig
- Rhoi camau gweithredu'r Llyfr Gwyrdd ar waith.

## Maes effaith: Digidol

**Nod:** Storio cyn lleied o ddata â phosibl yn y cwmwl. Cynnal systemau TG effeithlon a'u diweddaru. Gostwng allyriadau digidol.

**Cynnydd:** Anogir staff i glirio e-byst yn rheolaidd a dileu sbam.

**Camau gweithredu:**

- Codi ymwybyddiaeth y staff o allyriadau storio data a'u hannog i ddileu dogfennau diangen a negeseuon e-bost sy'n cael eu storio yn y cwmwl.
- Archwilio ein systemau TG ar gyfer effeithlonrwydd ynni.
- Creu tudalen ar y wefan i amlygu ein hymrwymiad i gynaliadwyedd, ein cyflawniadau diweddar, a'n huchelgeisiau ar gyfer y dyfodol.

## Maes effaith: Cynyrchiadau

**Nod:** Creu cynyrchiadau i'r safonau a'r ardystiadau uchaf.

**Cynnydd:** Ymgorffori cynaliadwyedd ym mhob penderfyniad busnes.

**Camau gweithredu:**

- Sicrhau bod cynyrchiadau'r dyfodol o leia'n gweithredu llinell sylfaen y Llyfr Gwyrdd.
- Tracio cynnydd gwahanol feysydd y cynyrchiadau, gan gynnwys y defnydd o drafnidiaeth a deunyddiau.

## Maes effaith: Bwriad Artistig

**Nod:** Creu rhaglenni sy'n addysgu ac yn codi ymwybyddiaeth o faterion amgylcheddol a ffyrdd o leihau ein hallyriadau.

**Cynnydd:** Mae bioamrywiaeth, amgylcheddaeth, cynaladwyedd a sgwrs yn themâu sy'n ymddangos mewn llawer o'n cynyrchiadau. Yn 2022, rhoddodd Operation Julie sylw penodol i'r argyfwng hinsawdd.

**Camau gweithredu:**

- Parhau i greu sioeau sy'n canolbwyntio ar gynaliadwyedd a sicrhau bod gwybodaeth y sioeau hyn yn gywir ac yn gyfredol.
- Archwilio ffyrdd y gall y cwmni gefnogi ymdrechion lleol i fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd.